

Cylchlythyr | Circular

Dyraniadau Cyllid CCAUC ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24

Dyddiad: 19 Gorffennaf 2023
Cyfeirnod: W23/19HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn
uniongyrchol yng Nghymru
Ymateb erbyn: Ymateb aiddosbarthu erbyn 15 Medi 2023
Cyswllt: Enw: Gemma Stephens
Ffôn: 029 2085 9641
E-bost: gemma.stephens@hefcw.ac.uk
Enw: Hannah Falvey
Ffôn: 029 2085 9720
E-bost: hannah.falvey@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi'r dosbarthiad cyllid ar y cyfan gan CCAUC ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 gan gynnwys dyraniadau sefydliadol unigol ar gyfer addysgu, ymchwil ac arloesi.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys	Rhif y Dudalen yn y Cylchlythyr	Cyfeirnod y Tabl a'r Atodiad
Cyflwyniad	1	
Cynnwys	2	
Strwythur	2	
Dosbarthiad y gyllideb ar y cyfan		Tabl 1
<ul style="list-style-type: none"> • Diwygiadau i gyllideb blwyddyn ariannol 2022-23 • Cyllideb blwyddyn ariannol 2023-24 • Tarddiad cyllideb blwyddyn academaidd 2023/24 • Cyfanswm dyraniad cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 • Dyrannu'r gyllideb 	3 4 4 6 6	
Dyrannu arian ar gyfer ymchwil ac arloesi		Tabl 1 Tabl 2a Tabl 2b Tabl 2c Tabl 3 Atodiad A
<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwil o Ansawdd • Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd • Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 	7 7 7	
Dyrannu cyllid ar gyfer addysgu		Tabl 1 Tabl 4a Tabl 4b Tabl 5a Tabl 5b Atodiad B Atodiad C
<ul style="list-style-type: none"> • Cyllid premiwm – darpariaeth israddedig amser llawn • Cyllid addysgu seiliedig ar greydau – darpariaeth israddedig ran-amser • Cyllid premiwm – darpariaeth israddedig ran-amser • Cyllid premiwm – pob dull a lefel • Cyllid y pen – pob dull a lefel a addysgir • Dyraniadau cyllid addysgu ar y cyfan • Hepgoriad ffioedd rhan-amser 	8 10 11 11 12 12 12	
Dyraniadau cyllid ymchwil ac addysgu ar y cyfan	13	Tabl 6
Bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir	14	Tabl 7
Lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol	14	Tabl 8
Telerau a thalu'r grant a ffynonellau data		
<ul style="list-style-type: none"> • Telerau'r grant • Ffynonellau data • Talu'r grant 	16 16 17	
Tablau crynhoi ac atodiadau	19	

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi ein cyllid ar y cyfan i ddarparwyr addysg uwch a gyllidir gan CCAUC yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 o £216m. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau darparwyr unigol ar gyfer cyllid addysgu, ymchwil ac arloesi.
2. Nid yw cyllid grant CCAUC yn cynnwys taliadau am grantiau ffioedd dysgu na thaliadau cymorth-i-fyfirwyr eraill a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.
3. Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid i CCAUC yn flynyddol ar sail blwyddyn ariannol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Mae CCAUC yn dyrannu cyllid i ddarparwyr addysg uwch ar sail blwyddyn academaidd o 1 Awst tan 31 Gorffennaf. Rydym yn defnyddio'r fformat Blwyddyn Ariannol (Bl. Ar.) 2023-24 i ddynodi'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2024, a'r fformat Blwyddyn Academaidd (Bl. Ac.) 2023/24 i ddynodi'r flwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf 2024.
4. I'w gwneud yn hawdd cymharu, mae'r cylchlythyr hwn yn darparu manylion cyfanswm dyraniad CCAUC yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae ffigyrau dyraniad cyllid Blwyddyn Academaidd 2022/23 a ddarperir yma (£229.8m) £12.7m yn uwch nag a gyhoeddwyd yn [W22/27HE](#) Dyraniadau Cyllid CCAUC ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23 (£217.1m). Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer iechyd meddwl (£2.3m), cyllid cyfalaf (£1m), y lleihad mewn prentisiaethau gradd (£2.5m) a chyllid a gariwyd ymlaen o Flwyddyn Academaidd 2021/22 (£11.8m).
5. Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau efelychu ein dull ni'n uniongyrchol ar gyfer sefydlu dyraniadau pan fyddant yn gwneud eu dyraniadau mewnol hwy eu hunain. Rydym yn disgwyl y bydd penderfyniadau ynghylch dyraniadau adnoddau manwl i adrannau a chyrsiâu'n cael eu gwneud yn strategol i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol a chyda sylw dyladwy i effaith bosibl dyraniadau o ran cyfrifoldebau statudol darparwyr, gan gynnwys y rhai am gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.
6. Rydym yn gweinyddu ein cyllid yn seiliedig ar bwerau a nodir yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, sy'n pennu natur gweithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid. Y gweithgareddau sy'n gymwys i gael cyllid yn bennaf yw'r rhai a gyflawnir gan sefydliadau addysg uwch gyda pheth cyllid yn cael ei ddarparu i ddarparu cyrsiau addysg uwch rhagnodedig mewn sefydliadau addysg bellach. Ar wahân, rydym yn rheoleiddio sefydliadau sydd â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy dan bwerau a nodir yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. O ganlyniad i ddod yn sefydliadau a reoleiddir, bydd cyrsiau israddedig amser llawn sefydliadau'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfirwyr. Hefyd, rydym yn gweinyddu proses sy'n caniatáu i gyrsiau darparwyr, nas dynodwyd yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfirwyr, gael eu dynodi'n benodol ar gyfer cymorth i fyfirwyr fesul achos unigol. **Nid yw'r** ddwy broses hon a grybwyllir uchod sy'n arwain at ddynodi cyrsiau gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'n swyddogaethau ni i weinyddu cyllid i sefydliadau. Gan hynny, nid yw bod yn sefydliad a reoleiddir neu fod â chyrsiâu wedi'u dynodi'n golygu bod darparwyr yn cael yr arian yr ydym ni'n ei weinyddu ac yr ydym wedi nodi'r dyraniadau ar ei gyfer yn y cylchlythyr hwn.

7. Cafodd [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#) Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) newydd, a fydd yn gyfrifol am reoleiddio a chyllido'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys y ddarpariaeth a reolir o fewn Llywodraeth Cymru a chan CCAUC ar hyn o bryd. Mae CCAUC i fod i gael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2024, gyda'r Comisiwn newydd yn dod yn llwyr weithredol o 1 Ebrill 2024.
8. Rydym wedi cadarnhau wrth Lywodraeth Cymru ein bod yn bwrw ymlaen ag agweddau ar ein gwaith sy'n hollbwysig yn ein tyb ni ar gyfer proses bontio esmwyth ac effeithiol i'r Comisiwn newydd. Mae ein llythyr cylch gwaith oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn nodi y dylem dybio y gall CCAUC "barhau i weithredu a datblygu ei brosesau cyllido a rheoleiddio yn unol â'i bwerau a'i brosesau presennol". Mae'r cyllid yn y cylchlythyr hwn yn ymwneud â Blwyddyn Academaidd 2023/24, sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith disgwylidig CCAUC, ond yng ngoleuni'r uchelgais i sicrhau proses bontio esmwyth, rydym yn disgwyl y bydd y CADY yn anrhydeddu'r ymrwymadau cyllido a wneir yma.

Cynnwys

9. Mae'r cylchlythyr hwn yn cwmpasu pob elfen o'n dyraniad cyllid ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb derfynol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 ym mis Chwefror 2023. Daeth y [llythyr cylch gwaith](#) cyfatebol i law ym mis Gorffennaf 2023. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r grant ar gyfer CCAUC ac yn nodi yn ei llythyr cylch gwaith pa flaenoriaethau y mae disgwyl i ni eu dilyn wrth ddsbarthu'r grant hwnnw.
10. Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys yr holl grantiau cylchol seiliedig ar fformiwla yn ogystal â grantiau a ddyrennir yn amodol ar ddarparu cynllun penodol neu strategaeth benodol ar gyfer gwariant. Cyflwynir manylion y gyllideb a'r dyraniad cyllid ar y cyfan yn Nhabl 1 (tudalen 20) ar y lefel macro. Caiff manylion dyraniadau cyfalaf fesul sefydliad eu cyhoeddi ar wahân, ac felly hefyd ddyraniadau cyllid ar gyfer mentrau strategol megis Ymestyn yn Ehangach, bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir (PGT), llesiant ac iechyd, cyflogadwyedd, cydraddoldeb hiliol a phrentisiaethau gradd.

Strwythur

11. Yr adrannau yn y cylchlythyr hwn yw:
 - Dosbarthiad y gyllideb ar y cyfan
 - Dyraniadau cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi
 - Dyraniadau cyllid ar gyfer addysgu
 - Dyraniadau cyllid ymchwil ac addysgu ar y cyfan
 - Cyllid strategol y Brifysgol Agored yng Nghymru
 - Cyllid elfen berfformio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC)
 - Bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir (PGT)
 - Lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol
 - Llesiant ac iechyd
 - Cydraddoldeb hiliol
 - Cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr

12. Mae'r cylchlythyr hwn hefyd yn ymdrin â materion megis ffynonellau data, telerau'r grant, trefniadau talu ac archwilio, lle y bo'n briodol.

Dosbarthiad y gyllideb ar y cyfan

Diwygiadau i gyllideb Blwyddyn Ariannol 2022-23

13. Mae'r cyllid cymharol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23 sydd wedi'i gynnwys yn Nhabl 1 (tudalen 20) yn ystyried yr holl newidiadau a wnaed i ddyraniad cyllid Blwyddyn Ariannol 2022-23 yn ein llythyr cylch gwaith terfynol ar gyfer y flwyddyn honno, ers y llythyr cylch gwaith gwreiddiol a ddaeth i law ym mis Ebrill 2022. Cyllideb refeniw o £201.8m oedd y sail i'n dyraniad cyllid gwreiddiol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23.
14. Cafodd CCAUC ei lythyr cylch gwaith gwreiddiol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 ym mis [Ebrill 2022](#).
15. Cafwyd diwygiad i'r llythyr cylch gwaith ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 ym mis [Mehefin 2022](#). Darparodd hwn ddyraniad ychwanegol o £3.2m i roi cymorth i ddarparu prentisiaethau gradd ym Blwyddyn Academaidd 2022/23.
16. Darparodd diwygiad i'r llythyr cylch gwaith ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 ym mis [Awst 2022](#) ddyraniad refeniw o £600k i ddarparu pecyn o gymorth mentora lle mae israddedigion addysg uwch yn gweithredu fel mentoriaid i ddysgwyr mewn addysg 16 – 19.
17. Darparodd diwygiad i'r llythyr cylch gwaith ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 ym mis [Rhagfyr 2022](#) y dyraniadau canlynol:
- £2.3m i gefnogi iechyd meddwl a llesiant gan gynnwys caledi a brofir gan fyfyrwyr;
 - dyraniad pellach o £6,786 ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021-22 a Blwyddyn Ariannol 2022-23 i sicrhau cydraddoldeb cyflog gyda graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru.
18. Fe wnaeth diwygiad i'r llythyr cylch gwaith ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 ym mis [Mawrth 2023](#) ddarparu'r dyraniadau canlynol:
- £2.4m ar gyfer lleoedd meddygol ychwanegol
 - £106,049 i ad-dalu costau a ysgwyddwyd gan CCAUC ym Blwyddyn Ariannol 2022-23 o ganlyniad i roi'r CADY ar waith
 - £110,000 i alluogi CCAUC i brynu trwyddedau meddalwedd ar ran y CADY.
- Fe wnaeth y diweddariad hwn i'r llythyr cylch gwaith ddarparu dyraniad o £12.9m hefyd, a ddarparwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Llywodraeth y DU, a oedd yn cynnwys:
- cyllid fformiwla hyblyg o £11.8m
 - ymgodiad o £1.14m mewn cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch.
19. Cafwyd diwygiad terfynol i'r llythyr cylch gwaith ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23 ym mis [Mawrth 2023](#) i wneud addasiad o £2.5m i roi cyfrif am danwariant ar brentisiaethau gradd. Roedd ymgodiad o £1m wedi'i gynnwys yn llinell gyfalaf CCAUC hefyd.

Cyllideb Blwyddyn Ariannol 2023-24

20. Cafodd cyllideb Blwyddyn Ariannol 2023-24 gan Lywodraeth Cymru ei chwblhau ym mis Chwefror 2023. Mae'r tabl isod yn darparu cymhariaeth rhwng llythyr cylch gwaith gwreiddiol Blwyddyn Ariannol 2022-23, llythyr cylch gwaith terfynol Blwyddyn Ariannol 2022-23 a llythyr cylch gwaith Blwyddyn Ariannol 2023-24.

	Blwyddyn Ariannol 2022- 23 Llythyr cylch gwaith gwreiddiol (Ebrill 2022) £	Blwyddyn Ariannol 2022- 23 Llythyr cylch gwaith terfynol (Mawrth 2023) £	Blwyddyn Ariannol 2023- 24 Llythyr cylch gwaith (Gorffennaf 2023) £	Blwyddyn Ariannol 2024- 25 Cyllideb ddrafft ddangosol LIC (Chwefror 2023) £
Refeniw (net)	201,813,000	207,966,092	205,230,395	198,556,000
Cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant)	100,000	100,000	100,000	100,000
Cyfalaf CCAUC	100,000	100,000	100,000	0
Cyfalaf (net)	10,000,000	11,000,000	10,000,000	0
Cyfanswm dyraniad cymorth grant	212,013,000	219,166,092	215,430,395	198,656,000
Cyllid fformiwla hyblyg	0	11,794,300	0	0
Ymgodiad HERC	0	1,143,000	0	0
Cyfanswm cyllid DSIT	0	219,166,092	0	0

21. Mae cyllid gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg y DU (DSIT) wedi'i glustnodi ac nid yw'n rhan o'r dyraniad cymorth grant felly nid yw wedi cael ei gynnwys yn y dadansoddiad o'r cyllid yn Nhabl 1. Mae cylchlythyr [W23/03HE](#) yn darparu rhagor o fanylion am ddyrannu'r cyllid hwn.

Tarddiad cyllideb Blwyddyn Academaidd 2023/24

22. Cyfrifir cyllideb y flwyddyn academaidd gan ddefnyddio cyfran o gyllideb blwyddyn ariannol un flwyddyn (60% fel arfer) a chyfran fantoli (40% fel arfer) o'r nesaf.
23. Mae [llythyr cylch gwaith](#) Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 yn cynnwys dyraniadau cyllid ar gyfer prentisiaethau gradd, bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir a chyllid cyfalaf, sydd wedi cael eu trin fel cyllidebau wedi'u clustnodi ar gyfer gweithgarwch sydd i'w gyflawni mewn blynyddoedd academaidd penodol a thros gyfnod penodedig o amser felly nid ydynt yn cael eu cynnwys fel cyllid blynyddol cylchol. Felly, nid yw'r cyllidebau hyn wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu'r cyfrannau o bob cyllideb blwyddyn ariannol sydd ar gael i ddarparu adnoddau ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24. Yn lle hynny, maent wedi cael eu rhannu rhwng blynyddoedd academaidd yn unol â'n proffiliau gwariant disgwylidig. Adlewyrchir hyn yn y tabl isod ac yn Nhabl 1 ar dudalen 20.
24. Cyllideb ddrafft ddangosol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 yw'r gyllideb ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024-25 a ddefnyddiwyd yn ein cyfrifiadau ni. Mae'n bosibl y gallai'r cyllid gwirioneddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 a

ddyrennir i CCAUC gan Lywodraeth Cymru fod yn wahanol ac o bosibl yn is, gyda'r risg o ganlyniad y gallai'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 fod yn is. Gallai unrhyw amrywiant sylweddol yng nghyllideb Blwyddyn Ariannol 2024-25 o'i gymharu â'n tybiaethau ni olygu hefyd bod angen gwneud newidiadau i'r dyraniad ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24. Fel a ddynodir uchod, rydym yn disgwyl y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2024, ond y bydd ymrwymadau cyllido ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 yn cael eu hanrhydeddu gan y CADY.

25. Mae dosbarthiad dyraniadau'r blynyddoedd ariannol i Flwyddyn Academaidd 2023/24 yn y tabl isod.

	Blwyddyn Ariannol 2023-24 £	Blwyddyn Ariannol 2024-25 £
Cyfanswm Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru	215,430,395	198,656,000
Namyn		
Cyfalaf	(10,000,000)	0
Dibrisiant (CCAUC)	(100,000)	(100,000)
Cyfalaf CCAUC	(100,000)	0
Costau rhedeg (CCAUC)	(6,014,035)	(5,493,238)
	199,216,360	193,062,762
Gan ychwanegu cyllid ychwanegol y cytunwyd arno:		
Lleoedd meddygol ychwanegol	3,023,741	4,077,920
Cyllideb refeniw	202,240,101	197,140,682
Namyn cyllid wedi'i glustnodi:		
Lleoedd meddygol ychwanegol	(3,023,741)	(4,077,920)
Prentisiaethau gradd	(8,874,000)	(5,000,000)
Bwrsariaethau cymhelliant	(4,000,000)	(4,000,000)
Grant refeniw cylchol	186,342,360	184,062,762

	Blwyddyn Academaidd 2023/24 £
Wedi'i dynnu i lawr o Flwyddyn Ariannol 2022-23 (oddeutu 63%)	112,535,426
Wedi'i dynnu i lawr o Flwyddyn Ariannol 2023-24 (oddeutu 40%)	73,625,105
Cyfanswm arian cyffredinol i'w ddsbarthu	186,160,531
Cyllid penodol	
Lleoedd meddygol ychwanegol	3,267,058
Prentisiaethau gradd	8,874,000
Bwrsariaethau cymhelliant	4,000,000
Cyfalaf	10,000,000
Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael ym Blwyddyn Academaidd 2023/24	212,301,589

Rhagwelir balans arian parod heb ei ddyrannu ar ddiwedd y flwyddyn (gweler Tabl 1, tudalen 20) ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23 o £5,033,957 ac ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 o £1,309,032.

Cyfanswm y Dyranid Cyllid ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24

26. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniadau cyllid ar y cyfan, a nodir mewn mwy o fanylder yn Nhablau 1 i 8 o dudalen 20 ymlaen ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

	Blwyddyn Academaidd 2022/23 £m	Blwyddyn Academaidd 2023/24 £m
Cyllid ymchwil ac arloesi ¹	105.6	104.7
Is-raddedig amser llawn ²	42.3	42.7
Rhan-amser ac ôl-radd a addysgir ³	33.8	33.9
Mynediad, llesiant a chyflogadwyedd ⁴	7.0	6.0
Cyllid cylchol sylfaenol	188.7	187.3
Prentisiaethau gradd	7.0	8.9
Bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir	4.0	4.0
Buddsoddiad strategol ⁵	19.1	5.8
Cyfanswm Gwariant Refeniw	218.8	206.0
Cyllid cyfalaf	11.0	10.0
Cyfanswm gwariant refeniw a chyfalaf	229.8	216.0

1 – Mae'n cynnwys Ymchwil o Ansawdd (QR), ymchwil ôl-radd (PGR), Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) a Lliniaru QR a PGR.

2 – Mae'n cynnwys premiwm pynciau drud (ESP), premiwm pynciau cost uwch (HCSP), premiwm cyfrwng Cymraeg, premiwm anabled a chyllid y pen.

3 – Mae'n cynnwys cyllid seiliedig ar gredydau, y pen a phremiwm israddedig ac ôl-radd rhan-amser.

4 – Mae'n cynnwys Ymestyn yn Ehangach, llesiant ac iechyd, cyflogadwyedd myfyrwyr (GO Wales), a chymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu.

5 – Ar gyfer y manylion gweler Tabl 1.

27. Lle y bo'n briodol, mae cyllid wedi cael ei ddyrannu'n unol ag argymhellion [Adolygiad Diamond](#) ac [Adolygiad Reid](#).

Dyrannu'r Gyllideb

28. Mae Tabl 1 ar dudalen 20 yn darparu dadansoddiad o gyfanswm y dyranid cyllid yn ôl prif benawdau'r gyllideb ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24.
29. Dangosir ffigyrau cyfatebol Blwyddyn Academaidd 2022/23 ar gyfer pob llinell yn y gyllideb.

Dyrannu cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi

Ymchwil o Ansawdd (QR)

30. Mae'r elfen ymchwil o ansawdd o'r grant cylchol yn gwobrwyo rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy, gan ddefnyddio ansawdd a maint yr ymchwil fel a ddangosir gan ganlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yn 2021. Ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24, £81.7m yw'r cyllid a neilltuwyd i ymchwil o ansawdd. Mae hyn yn cynrychioli'r un lefel o gyllid ag ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. Dyrennir cyllid ymchwil o ansawdd gan ddefnyddio'r dull a gyhoeddwyd yn [W22/24HE](#).
31. Caiff dyraniadau ymchwil o ansawdd Blwyddyn Academaidd 2023/24 eu nodi fesul darparwr yn Nhabl 2a. Darperir dadansoddiad ar gyfer pob darparwr yn ôl uned asesu (UoA) yn **Atodiad A**.

Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd (PGR)

32. Rydym yn gweithredu ffrwd gyllido ar wahân i gefnogi hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Caiff y trothwy ar gyfer cynnwys Unedau Asesu wrth ddyrannu cyllid ymchwil ôl-radd ei bennu ar yr un lefel ag ymchwil o ansawdd: h.y. dim ond i Unedau Asesu sy'n gymwys ar gyfer cyllid ymchwil o ansawdd y dyrennir cymorth ymchwil ôl-radd. Dyrennir cyllid ymchwil ôl-radd gan ddefnyddio'r dull a gyhoeddwyd yn [W22/24HE](#).
33. Mae cyllid o fewn uchafswm ar y cyfan a gytunwyd gan CCAUC bob blwyddyn ac mae'n seiliedig ar gywerthedd amser llawn (CALI) y nifer mwyaf diweddar a gadarnhawyd o gofrestrïadau gwirioneddol. Y rhain yw'r cofrestrïadau cyllidadwy y tybir eu bod yn gymwys mewn Unedau Asesu sy'n gymwys i gael cyllid ymchwil o ansawdd ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24. Cymerir y data cofrestru CALI o ffurflenni cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.
34. Ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24, mae CCAUC wedi pennu swm o £6.237m fel uchafswm y cyllid ar y cyfan ar gyfer ymchwil ôl-radd. Mae hyn yr un lefel o gyllid ag a ddyrannwyd ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. Caiff y dyraniadau ymchwil ôl-radd eu nodi yn Nhabl 2c.
35. Caiff manylion y cyllid ar gyfer lliniaru ymchwil o ansawdd a PGR eu darparu ym mharagraff 63 a'u dadansoddi fesul darparwr yn Nhabl 6.

Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

36. Mae Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) wedi'i bwriadu i gefnogi'r ystod o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth sy'n arwain at effaith economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys rôl cenhadaeth ddinesig ehangach darparwyr. Mae'r cyllid yn rhoi cymorth i weithio gyda busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd. Mae gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth sy'n cyfrannu at dwf economaidd, cynhyrchiant ac sy'n cefnogi rôl ddinesig darparwyr yn flaenoriaethau uchel.

37. Mae dwy elfen i RWIF: (i) Grant capasiti i wella deilliannau perfformiad a chreu sefydlogrwydd yn y sector; a (ii) dyraniad fformiwla sy'n gwobrwyo perfformiad yn erbyn mesurau cenedlaethol CCAUC ar gyfer arloesi.
38. Yn seiliedig ar gyfanswm cyllideb o £15m, pennir y grant capasiti ar lefel o £250k i bob sefydliad. Y dyraniad uchaf y gall unrhyw sefydliad ei gael (cyfuniad rhwng grant capasiti a dyraniad fformiwla) yw £4m y flwyddyn. Pennwyd isafswm o £400k i bob sefydliad.
39. Yn dilyn ymgynghori â'r sector, cafodd methodoleg cyllid fformiwla RWIF ei diweddarau ([W22/41HE](#)) i roi cyfrif yn fwy priodol am gwmnïau deilliedig a busnesau a gychwynwyd gan raddedigion. Mae'r fformiwla'n dal i ddefnyddio tair blynedd o ddata a gyflwynwyd i Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned (HEBCI) HESA (Blwyddyn Academaidd 2019/20 i Flwyddyn Academaidd 2021/22) gyda'r blynyddoedd wedi'u pwysoli 2:3:5. Caiff yr elfen hon o gyfrifo'r cyllid ei diweddarau'n flynyddol, gyda'r potensial i ddarparwyr weld cynnydd o hyd at 30%, neu ostyngiad hyd at uchafswm o -10%. Er mwyn darparu sefydlogrwydd yn dilyn y newidiadau i'r fformiwla gyllido, bydd y gostyngiad mwyaf posibl ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 yn cael ei leihau i -5%. Bydd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, wrth i'r fethodoleg gyllido ddiwygiedig ennill ei phlwyf.
40. Darperir dyraniadau terfynol yn Nhabl 2b. Ceir gwybodaeth bellach am fetrigau a gofynion strategaeth RWIF yng nghylchlythyr [W23/12HE](#).

Dyrannu cyllid ar gyfer addysgu

Cyllid premiwm – darpariaeth israddedig amser llawn (FT UG)

41. Ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24, mae'r premiwm pynciau drud (ESP) a'r premiwm pynciau cost uwch yn cael eu dyrannu ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn (FT UG). Dyrennir y premiwm pynciau drud mewn perthynas â meddygaeth/deintyddiaeth glinigol a darpariaeth elfen berfformio conservatoire tra bo'r premiwm pynciau cost uwch yn cael ei ddyrannu mewn perthynas â meddygaeth/deintyddiaeth anghlinigol, gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg, a gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura.
42. Mae'r cyfraddau cyllido a ddefnyddir i ddyrannu cyllid premiwm pynciau drud yn aros ar yr un lefel ag ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. Cafodd y cyfraddau cyllido hyn eu pennu ym Mlwyddyn Academaidd 2019/20 ac fe'u cyfrifwyd i ddarparu cyfraddau cyfwerth ar y pryd â chyllid a oedd yn cael ei ddyrannu gan y Swyddfa Fyfywr yn Lloegr ar gyfer darpariaeth debyg. Caiff y dyraniadau eu nodi yn Nhabl 5a ac maent yn seiliedig ar y ddwy gyfradd isod ar gyfer cyllid premiwm, a ddyfernir am bob gwerth credyd a gwblheir:

Premiwm pynciau drud:

- Cyfradd 1 - £86.25, yn cael ei chymhwyso i bynciau meddygaeth/deintyddiaeth glinigol (sy'n gyfwerth â chategori pynciau academaidd (ASC) 1b ac 1d)
- Cyfradd 2 - £51, yn cael ei chymhwyso i'r elfen berfformio conservatoire (darpariaeth elfen berfformio yn ASC 10).

43. Hefyd, fel sydd wedi bod yn digwydd ers Blwyddyn Academaidd 2019/20, bydd cyllid ar gyfer premiwm pynciau drud yn cael ei gapio trwy gyfyngu ar nifer y gwerthoedd credydau y gellir eu defnyddio yn y cyfrifiad. Ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth glinigol, hwn yw'r gwerthoedd credydau sy'n gyfwerth â nifer y lleoedd clinigol cwota. Ar gyfer darpariaeth conservatoire, hwn yw'r gwerthoedd credydau sy'n gyfwerth â'r niferoedd myfyrwyr a gyllidir y cytunwyd arnynt fel rhan o'r trefniant cyllido arbennig a oedd yn bodoli, cyn cyflwyno'r gyfundrefn ffioedd dysgu ddiwygiedig ym Mlwyddyn Academaidd 2012/13. Ers Blwyddyn Academaidd 2022/23, mae'r cap wedi cael ei godi i gynnwys niferoedd myfyrwyr ychwanegol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer darpariaeth theatr gerdd.
44. Caiff y dyraniadau ar gyfer y premiwm pynciau cost uwch eu nodi yn Nhabl 5a ac maent yn seiliedig ar y cyfraddau premiwm isod, a ddyfernir am bob gwerth credyd a gwblheir. Mae'r cyfraddau hyn yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23:
- Premiwm pynciau cost uwch:
- Meddygaeth/deintyddiaeth anghlinigol - £11.43
 - Gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg - £6.57
 - Gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura - £3.07
45. Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y premiwm pynciau cost uwch yw'r rhai lle amcangyfrifir bod cost eu darparu'n uwch na'r ffi ddysgu gyfartalog y tybir bod darparwyr yn ei chael yng Nghymru, yn ôl gwaith a wnaed ym Mlwyddyn Academaidd 2019/20. Mae manylion y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cyfraddau cyllid gwreiddiol wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr [W18/24HE](#), er y dylid nodi bod y data a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau wedi'u diweddarau i'w rhoi ar waith ym Mlwyddyn Academaidd 2019/20, a bod unrhyw broses i dalgrynnu ffigyrau wedi cael ei chyflawni ar ddiwedd y broses gyfrifo. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r dull ar gyfer cyllid Blwyddyn Academaidd 2023/24. Cyfrifir dyraniadau ar gyfer darparwyr trwy luosi cyfradd y cyllid â gwerthoedd credydau a gwblhawyd o ddata monitro diwedd blwyddyn ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22 a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA 2021/22, ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a rhyngosod, gyda gwerthoedd credydau blwyddyn allan ryngosod yn cael eu cyfrif ar 0.5. Mae Tabl 5b yn dangos y dyraniadau fesul pwnc a darparwr.
46. Caiff cyllid premiwm a chyllid y pen israddedig amser llawn ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol, yn rhai sy'n rhan o'r cynnydd parhaus mewn lleoedd meddygol ac yn lleoedd ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 ar gyfer dechreuwyr ym Mlwyddyn Academaidd 2020/21 a Blwyddyn Academaidd 2021/22, ei ddangos ar wahân yn Nhabl 8 ac nid yw wedi'i gynnwys yn Nhabl 5a a 5b. Mae paragraffau 72 a 76 isod yn darparu gwybodaeth bellach am y lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol.
47. Yn 2023/24, mae premiwm cyfrwng Cymraeg wedi cael ei gyflwyno i gael ei ddyrannu ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn. Mae'r premiwm yn ychwanegu pwysoliad o 0.5 at yr uned gyllid a ddefnyddir yn y premiwm pynciau drud a'r premiwm pynciau cost uwch ar gyfer modiwlau israddedig amser llawn a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y premiymau hyn (gweler [W23/08HE](#)). Caiff y dyraniadau i bob darparwr, yn seiliedig ar gyfartaledd data gwerthoedd credydau HESA ym Mlwyddyn Academaidd 2020/21 a Blwyddyn Academaidd 2021/22 eu nodi yn Nhabl 5a.

Cyllid addysgu seiliedig ar gredydau – israddedig rhan-amser (PT UG)

48. Rydym yn parhau i gyllido cyrsiau israddedig rhan-amser (PT UG) ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 trwy'r dull cyllid addysgu seiliedig ar gredydau, fel ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23.
49. Pennwyd cyllid seiliedig ar gredydau ar gyfer addysgu israddedig rhan-amser gan ddefnyddio ein dull cyllid addysgu. Sefydlwyd hwn ym 1999 ac fe'i diwygiwyd ym Mlwyddyn Academaidd 2011/12 gyda'r elfen adennill o'r dull yn cael ei thynnu allan.
50. Mae dyraniadau cyllid yn seiliedig ar gelloedd cyllid. Mae cell gyllid yn cyfeirio at:
 - Lefel: israddedig (nid trwy ddarpariaeth freiniol); israddedig trwy ddarpariaeth freiniol;
 - Dull: rhan-amser; a hefyd
 - Categori pynciau academaidd (ASC): ASC 1a i 11b ac ASC 11a, Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn arwain at statws athro cymwysedig (SAC), wedi'i rhannu'n Gynradd ac Uwchradd.
51. Sefydli'r y cyllid ym mhob cell trwy luosi nifer y gwerthoedd credydau a gyllidir yn y gell honno â'n huned gyllid safonol ar gyfer y categori pynciau academaidd.
52. Mae'r unedau cyllid am bob gwerth credyd ar gyfer pob categori pynciau academaidd ar gyfer israddedig rhan-amser ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 wedi cael eu cynyddu ac maent 8% yn uwch na'r rhai a ddefnyddiwyd ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. Nodir y rhain yn **Atodiad B**.
53. Caiff cyfanswm y cyllid israddedig rhan-amser a'r dyraniadau seiliedig ar werthoedd credydau a gyllidir ym mhob cell ar gyfer pob darparwr eu dangos yn **Atodiad C**.
54. Caiff y niferoedd craidd israddedig rhan-amser eu pennu gan y model cyllido. Fe'u cyfrifir trwy ddefnyddio credydau a gyllidwyd o Flwyddyn Academaidd 2022/23 a'u dyrannu i gelloedd cyllid gan ddefnyddio dosbarthiad credydau a gyllidwyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23 a gwerthoedd credydau a recriwtiwyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22. Daw'r data recriwtio o'r arolwg monitro diwedd blwyddyn (EYM) ar gyfer cofrestrïadau addysg uwch ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22 (cylchlythyr [W22/31HE](#)).
55. Fel ym Mlwyddyn Academaidd 2019/20 i Flwyddyn Academaidd 2022/23, cytunodd Cyngor CCAUC i gynnwys twf yn y model seiliedig ar gredydau trwy drosi'r holl gredydau ffioedd-yn-unig yn gredydau a gyllidir. Ystyr credydau ffioedd-yn-unig yw lle mae darparwyr wedi recriwtio credydau y tu hwnt i'r rhai a gyllidwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn darparu ar gyfer twf mewn credydau a gyllidir i rai darparwyr ac mae hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**. Mae Tabl 4a yn dangos y dadansoddiad rhwng credydau a gyllidir â chyllid craidd a chyllid, a chredydau a gyllidir â chyllid twf a chyllid.

Cyllid premiwm – darpariaeth israddedig ran-amser

56. Caiff y premiwm mynediad a chadw a'r premiwm cyfrwng Cymraeg eu dyrannu ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser ac fe'u nodir yn Nhabl 4b. Disgrifir y rhain isod.

- Premiwm cyfrwng Cymraeg
Mae'r premiwm Cyfrwng Cymraeg wedi cael ei gynyddu ac mae bellach yn ychwanegu pwysoliad o 0.5 at yr uned gyllid ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 ar gyfer modiwlau a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg (cynnydd o'i gymharu â'r pwysoliad o 0.34 a gymhwyswyd ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23). Caiff y dyraniadau i bob darparwr, yn seiliedig ar gyfartaledd data gwerthoedd credydau HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2020/21 a Blwyddyn Academaidd 2021/22, eu nodi yn Nhabl 4b.
- Premiwm mynediad a chadw
Mae dwy elfen i ddyraniad y premiwm mynediad a chadw ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser. O ran mynediad, dyfernir premiwm mewn perthynas â myfyrwyr o ardaloedd â chyfranogiad isel mewn addysg uwch fel a ddiffinnir gan ddau gwintel isaf mesur Addysg Uwch oedolion y DU a gyfrifir o ddata cyfrifiad 2011 a myfyrwyr o ardaloedd amddifadus fel a ddiffinnir gan ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALIC19). Gall myfyrwyr unigol ddenu mwy nag un premiwm.

Nod yr ail elfen yw gwobrwyo llwyddiant i gadw. Rydym wedi dyrannu cyfradd gyllido uwch mewn perthynas â myfyrwyr sy'n parhau nag mewn perthynas â myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf. Dyrennir y gyfradd uwch mewn perthynas â myfyrwyr ar gyrsiau un flwyddyn hefyd sy'n eu cwblhau'n llwyr neu'n rhannol.

I gydnabod bod y gyfran o fyfyrwyr ehangu mynediad mewn darparwr yn effeithio ar y galw am gymorth sy'n ofynnol, mae darparwyr wedi cael eu rhannu'n ddau fand gan ddibynnu ar eu cyfraddau recriwtio ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22 o ddau gwintel isaf MALIC19. Mae darparwyr lle mae myfyrwyr o ardaloedd amddifadus yn cynrychioli mwy na 35 y cant o'r myfyrwyr sy'n huanu o Gymru ym mand 1 ac yn cael premiwm uwch, ac mae'r rhai hynny lle mae myfyrwyr o ardaloedd amddifadus yn cynrychioli 35 y cant neu lai ym mand 2 ac yn cael premiwm is.

Cafodd y fethodoleg ar gyfer y premiwm mynediad a chadw ei hadolygu fel rhan o gam cyntaf yr adolygiad o gyllid addysgu. Fe arweiniodd yr adolygiad at newidiadau a amlinellwyd yng nghylchlythyr [W22/10HE](#), a roddwyd ar waith am y tro cyntaf ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23. Caiff dyraniadau sefydliadol unigol ar gyfer 2023/24 eu nodi yn Nhabl 4b.

Cyllid premiwm – pob dull a lefel

57. Ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24, caiff y premiwm anabledde ei ddyrannu ar gyfer pob dull a lefel astudio. Mae hyn yn cynrychioli parhad y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd er mwyn cynnwys pob dull a lefel astudio, a roddwyd ar waith ym Mlwyddyn Academaidd 2020/21 (cylchlythyr [W19/33HE](#)).

58. Dyrennir cyfradd gyllido am bob myfyriwr cymwys, sef y myfyrwyr hynny y cofnodwyd eu bod yn cael Lwfans Myfyriwr Anabl ar gofnod myfyrwyr HESA, ac maent yn amodol ar y gofyniad astudio isaf o 10 gwerth credyd (neu 8.3% CALI ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd). Ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24, bydd y gyfradd am bob myfyriwr yn £450, sy'n gynydd o'i gymharu â'r £300 a oedd ar gael ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. O ganlyniad, mae'r cyllid ar y cyfan sydd ar gael ar gyfer y premiwm anabledd wedi cynyddu ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 o'i gymharu â Blwyddyn Academaidd 2022/23, o £2.1m i £3.1m. Caiff y dyraniadau eu nodi yn Nhabl 4b ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd ac yn Nhabl 5a ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn.

Cyllid y pen – pob dull a lefel a addysgir

59. Mae'r swm y pen ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 wedi cael ei gynnal ar gyfradd o £5 y myfyriwr ar gyfer pob dull a lefel astudio a addysgir. Mae hyn yn sicrhau cyllid ar ryw lefel i'r holl fyfyrwyr. Pennwyd taliadau ar sail cofrestriadau cyllidadwy yn ôl data cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22, yn amodol ar ofyniad astudio isaf o 10 gwerth credyd. Caiff y swm cyllid y pen a ddyrennir i bob darparwr ei ddangos yn Nhabl 4a ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd ac yn Nhabl 5a ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn.
60. Caiff y cyllid y pen ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol, yn rhai sy'n rhan o'r cynnydd parhaus mewn lleoliadau meddygol ac yn lleoedd sy'n gysylltiedig â Covid-19, ei ddangos ar wahân yn Nhabl 8 ac nid yw wedi'i gynnwys yn Nhabl 5a. Mae paragraffau 72 i 76 isod yn darparu gwybodaeth bellach am y lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol.

Dyraniadau cyllid addysgu ar y cyfan

61. Mae Tablau 4a a 5a yn dangos y dyraniadau cyllid addysgu ar y cyfan. Mae Tabl 4a yn dangos niferoedd credydau a gyllidir a chyllid cysylltiedig ar gyfer cyllid addysgu seiliedig ar gredydau israddedig rhan-amser ynghyd â chyllid y pen a phremiwm ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd. Mae Tabl 5a yn dangos cyllid y pen a phremiwm ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn.

Hepgoriad ffioedd rhan-amser

62. Mae ein cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser yn cynnig grantiau i ddarparwyr sy'n hepgor ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan-amser sy'n astudio llai na 30 o gredydau (h.y. islaw 25% CALI), sy'n bodloni meini prawf cymhwysra'r cynllun. Ym mis Gorffennaf 2021, trwy Gylchlythyr [W21/26HE](#), fe wnaethom ymgynghori ynghylch newidiadau i'r cynllun, i'w rhoi ar waith ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw eu cyhoeddi trwy Gylchlythyr [W22/10HE](#). Disgwylir i gylchlythyr y cynllun ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023.

Dyraniadau cyllid ymchwil ac addysgu ar y cyfan

63. Mae Tabl 6 yn nodi'r dyraniadau i bob darparwr ar gyfer cyllid addysgu, ymchwil ac arloesi ac yn darparu cymhariaeth â'r dyraniadau cyllid ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23. Mae hyn yn cynnwys elfen o gyllid lliniaru ar gyfer y newidiadau mewn cyllid ymchwil o ansawdd ac ymchwil ôl-radd oherwydd y dull cyllido diwygiedig yn seiliedig ar ganlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021. Mae cyllid lliniaru wedi cael ei ddyrannu lle mae dyraniad darparwr ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 o ran cyllid ymchwil o ansawdd a chyllid ymchwil ôl-radd yn llai na'r dyraniad ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22 o ran cyllid ymchwil o ansawdd a chyllid ymchwil ôl-radd. Lle mae hyn yn wir, caiff 60% o'r gwahaniaeth mewn cyllid ymchwil o ansawdd ac ymchwil ôl-radd rhwng y ddwy flynedd ei ddyrannu fel cyllid lliniaru.
64. Gan gynnwys y cyllid lliniaru, mae'r newid mewn cyllid ar y cyfan o un flwyddyn i'r llall ar gyfer prifysgolion yn amrywio o ostyngiad o 11.4% i gynnydd o 5.8%. Mae'r ystod fawr o wahaniaethau mewn cyllid i'w phriodoli'n bennaf i gyllid seiliedig ar greydau israddedig rhan-amser, lle mae'r darparwyr hynny â chyfrannau mawr o ddarpariaeth israddedig ran-amser, yn enwedig lle ceir twf yn y ddarpariaeth honno, wedi gweld codiadau yn y cyllid oherwydd yr uned gyllid uwch, a'r rhai â llai o recriwtio mewn darpariaeth israddedig ran-amser wedi gweld gostyngiadau. Mae'r gostyngiad mewn cyllid lliniaru hefyd yn cyfrannu at y lleihad mewn cyllid i rai darparwyr.
65. Nid yw ffigyrau Blwyddyn Academaidd 2023/24 yn Nhabl 6 yn cynnwys manylion y dyraniadau ar gyfer bwrsariaethau cyrsiau meist'r ôl-radd a addysgir na'r dyraniad cyllid ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol. Darperir y dyraniadau hyn yn Nhablau 7 ac 8.
66. Nid yw'r dyraniadau hyn yn ystyried unrhyw addasiadau posibl i'r cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 a allai gael eu cymhwyso gan Lywodraeth Cymru. Bydd unrhyw addasiadau o'r fath i'r cyllid yn arwain at ddiwygio'r dyraniadau unigol. Hefyd, os yw cyllideb Blwyddyn Ariannol 2024-25 yn wahanol i'r swm a dybiwyd ar gyfer y dyraniad hwn, bydd effaith ar yr adnoddau a fydd ar gael ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 a'r dyraniadau cysylltiedig.
67. Er mwyn hwyluso rhywfaint o hyblygrwydd a chydweithio, cynigir y cyfle i ddarparwyr aiddosbarthu credydau a gyllidir ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser rhwng darparwyr ar sail niwtral o ran cost. Os bydd darparwyr yn dymuno manteisio ar yr opsiwn hwn, dylent ein hysbysu ar y cyd ynghylch eu bwriadau erbyn 15 Medi 2023 trwy anfon neges e-bost i hestats@hefcw.ac.uk.

Cyllid strategol y Brifysgol Agored yng Nghymru

68. Ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24, fel yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi dyrannu cyllid strategol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru y mae ei werth yn £605k.
69. Mae Tabl 6 yn cynnwys y cyllid strategol ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Cyllid elfen berfformio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC)

70. Dyrennir cyllid elfen berfformio ar gyfer darpariaeth conservatoire i Brifysgol De Cymru ar gyfer darpariaeth yn CBCDC, sy'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru. Darperir dyraniad o £585k i gefnogi datblygiadau strategol yn CBCDC yn ychwanegol at yr elfen berfformio a ddarperir trwy'r premiwm pynciau drud a ddangosir yn Nhabl 5a. Mae'r cyllid strategol hwn yr un faint â'r llynedd ac yn sicrhau nad yw'r cyllid ar y cyfan ar gyfer darpariaeth conservatoire yn gostwng islaw'r cyllid a ddarparwyd mewn Blynyddoedd Academaidd o 2018/19 i 2021/22, cyn cynnwys y cyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth theatr gerdd o Flwyddyn Academaidd 2022/23.

Bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir (PGT)

71. Hon yw pumed flwyddyn cynllun cymhellant i gynyddu nifer y graddedigion o Gymru sy'n aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i wneud cwrs meistr ôl-radd a addysgir mewn pynciau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth (STEMM), a chysiau meistr ôl-radd a addysgir sy'n cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg (cyfeirier at [W22/13HE](#)). Hon hefyd yw pumed flwyddyn y cynllun i ddarparu cyllid bwrsariaeth ar gyfer y rhai sy'n astudio ar gyfer gradd meistr sy'n 60 oed neu drosodd, trwy gyllid CCAUC i sefydliadau. Caiff cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn ei ddangos yn Nhabl 7.

Lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol

72. O Flwyddyn Academaidd 2018/19, cafodd lleoedd meddygol ychwanegol eu cyllido yng Nghymru, cyfanswm o 40 o leoedd y garfan, 20 yr un ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe gyda charfannau pellach yn dechrau mewn blynyddoedd dilynol.
73. O ganlyniad i Covid-19, ar sail anghylchol, cafodd 25 o leoedd meddygol ychwanegol ac 1 lle deintyddol ychwanegol eu cyllido ym Mlwyddyn Academaidd 2020/21 gydag 17 o leoedd meddygol ychwanegol a 2 le deintyddol ychwanegol yn cael eu cyllido ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22, ym Mhrifysgol Caerdydd. Caiff y rhain eu cyllido fel myfyrwyr sy'n parhau ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24.
74. Dyrannwyd lleoedd pellach ar sail gylchol. Carfan ddechreuol ychwanegol o 25 o leoedd ym Mhrifysgol Abertawe oedd hon yn ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22. Ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 caiff y rhain eu cyllido fel 50 o fyfyrwyr sy'n parhau o Flwyddyn Academaidd 2021/22 a Blwyddyn Academaidd 2022/23, a thrydedd garfan o 25 o fyfyrwyr sy'n dechrau ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24. Yn ychwanegol at hyn, roedd carfan ddechreuol bellach o 25 o leoedd ym Mhrifysgol Abertawe ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23, ac felly ar gyfer y rhain ceir 25 o fyfyrwyr sy'n parhau a 25 sy'n dechrau ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24. Roedd carfan ddechreuol ychwanegol o 15 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23 hefyd. Ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 caiff y rhain eu cyllido fel 15 o fyfyrwyr sy'n parhau o 2022/23, ac ail garfan o 15 o fyfyrwyr sy'n dechrau ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24.
75. Caiff y cyllid ar gyfer y lleoedd hyn ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24, sy'n cynnwys cyllid premiwm pynciau drud ar gyfer y rhan glinigol o'r cwrs, premiwm pynciau cost uwch ar gyfer y rhan anghlinigol o'r cwrs a chyllid y pen, ei ddangos yn Nhabl 8, ac

nid yw wedi'i gynnwys yn Nhablau 5a a 5b, gan bod y cyllid ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 ar gyfer y lleoedd meddygol ychwanegol yn amodol ar ddyraniad ar wahân yn y llythyr cylch gwaith. Mae niferoedd ychwanegol y lleoedd meddygol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 yn dal i fod yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, felly dylid ystyried mai dyraniadau cyllid dros dro yw'r rhai yn Nhabl 8.

76. Mae'r tabl isod yn crynhoi lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol ar gyfer dechreuwyd newydd a'r rhai sy'n parhau.

Prifysgol	Cylchol	Blwyddyn Academaidd					
		2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Prifysgol Caerdydd							
Meddygol gwreiddiol	le	20	40	60	80	100	100
Meddygol ychwanegol Covid-19	Na			25	42	42	42
Deintyddol ychwanegol Covid-19	Na			1	3	3	3
Meddygol newydd 2022/23	le					15	30
Cyfanswm Prifysgol Caerdydd		20	40	86	125	160	175
Prifysgol Abertawe							
Meddygol gwreiddiol	le	20	40	60	80	80	80
Meddygol newydd 2021/22	le				25	50	75
Meddygol newydd 2022/23	le					25	50
Cyfanswm Prifysgol Abertawe		20	40	60	105	155	205
Cyfanswm y cwbl ar gyfer Cymru		40	80	146	230	315	380

Llesiant ac iechyd

77. Mae dyraniad cylchol o £2m wedi cael ei wneud ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 i gefnogi cynlluniau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd. Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu mewn cylchlythyr ar wahân ynghylch dyrannu a monitro'r cyllid hwn.
78. Mae llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £2.3m i gefnogi llesiant ac iechyd. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu mewn ffordd debyg i'r dyraniad ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23 i gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch ([W23/01HE](#)). Bydd cylchlythyr ar wahân yn cael ei gyhoeddi, gyda chanllawiau a threfniadau cyllido a monitro.

Cydraddoldeb hiliol

79. Dyrannwyd £1m ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 i gefnogi cydraddoldeb hiliol. Fe wnaethom gadarnhau trwy gylchlythyr [W22/05HE](#) fod Cyngor CCAUC wedi cytuno i roi dyraniad o £500k ar y cyfan ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22 ac £1m yn flynyddol ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23, Blwyddyn Academaidd 2023/24 a Blwyddyn Academaidd 2024/25 i gefnogi cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch, yn amodol ar gyllidebau CCAUC (a'r broses o bontio i'r CADY) ac ymrwymïadau

boddhaol gan brifysgolion. Mae'r cyllid hwn yn amodol ar gyllid cyfatebol gan brifysgolion ar gyfer y dyraniad o £1m gan CCAUC. Bydd cylchlythyr ar wahân yn rhoi arweiniad, gan gadarnhau dyraniadau Blwyddyn Academaidd 2023/24 a threfniadau monitro.

Cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr

80. Dyrannwyd £2m ym Blwyddyn Academaidd 2023/24 ar gyfer cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr. Mae'r cyllid hwn bellach wedi'i fwriadu i fod yn gylchol, gan ddisodli'r rhaglen GO Wales a gyllidwyd trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Bydd cylchlythyr ar wahân yn darparu manylion dyraniadau sefydliadol, a gofynion ar gyfer cynlluniau cyflawni a monitro.

Telerau a thalu'r grant a ffynonellau data

Telerau'r grant

81. Caiff y sail i ddarparu cyllid addysgu ac ymchwil ar gyfer darparwyr addysg uwch ei nodi yn y Telerau ac Amodau Cyllido rhwng CCAUC a darparwyr unigol, a bydd yn adlewyrchu amodau cyllido diweddaraf Llywodraeth Cymru. Ar gyfer darparwyr addysg bellach, mae hefyd wedi'i nodi yn y Telerau ac Amodau Cyllido gyda CCAUC. Bydd y Telerau ac Amodau Cyllido ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 yn cael eu cyhoeddi'n ddim hwyrach na diwedd mis Hydref 2023.
82. Gall CCAUC addasu'r cyllid a ddyfernir i sefydliadau ar ddiwedd sesiwn Blwyddyn Academaidd 2023/24 i ystyried tanrecriwtio yn erbyn y niferoedd a gyllidir ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser a ddyrannwyd trwy'r cyllid seiliedig ar gredydau israddedig rhan-amser. Bydd CCAUC yn monitro'r modd y cyflawnir niferoedd a gyllidir gan ddefnyddio'r credydau gwirioneddol a gwblhawyd ar ddiwedd y flwyddyn. Ni fydd credydau a gwblhawyd yn cynnwys unrhyw rai sy'n gysylltiedig â modiwlau nad yw'r holl weithdrefnau asesu wedi cael eu cyflawni ar eu cyfer. Bydd y gwahaniaeth rhwng niferoedd a gwblhawyd a niferoedd a gyllidwyd yn cael ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cell gyllid ac yn cael ei drosi i'w gywerthedd cyllid gan ddefnyddio'r uned gyllid safonol berthnasol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24.
83. Bydd gogwyddiad o 1% ar gyfer tanrecriwtio ar gyfanswm y niferoedd a gyllidir ar gyfer y cyllid seiliedig ar gredydau israddedig rhan-amser. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ni fydd addasiadau i'r cyllid ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 sydd islaw'r trothwy, sef yr isaf rhwng £50,000 neu 10% o gyfanswm y dyraniadau addysgu (gan gynnwys cyllid y pen, premiwm ac israddedig amser llawn), neu drothwy arall y cytunwyd arno gan CCAUC, yn cael eu cymhwyso. Os yw'r tanrecriwtio'n arwain at addasiad i'r cyllid uwchlaw'r trothwy, bydd y trothwy'n cael ei ddiwyddu o gyfanswm yr addasiad i'r cyllid.

Ffynonellau data

84. Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer cyllid wedi cael eu darparu a'u gwirio gan ddarparwyr.

85. Mae'r data ar gyfer cyllid seiliedig ar gredydau ar gyfer addysgu wedi cael eu cymryd o ddata monitro diwedd blwyddyn a echdynnwyd gan CCAUC o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.
86. Mae dyraniadau y pen a dyraniadau premiwm wedi cael eu seilio ar ddata cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.
87. Mae dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg wedi cael eu seilio ar gyfartaledd data gwerthoedd credydau HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2020/21 a Blwyddyn Academaidd 2021/22.
88. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer ymchwil ôl-radd wedi cael eu seilio ar ddata cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/22.
89. Mae'r data ar gyfer cyllid ymchwil wedi cael eu cymryd o'r data a ddychwelwyd i, a chanlyniadau, Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 a chofnod cyllid HESA ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20 i Flwyddyn Academaidd 2021/22.
90. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru wedi cael eu seilio ar ddata arolwg HEBCI HESA ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22, data cofnod staff HESA ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22, ac ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru, data cofnod myfyrwyr HESA ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22.
91. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargeddu, cydraddoldeb hiliol a llesiant ac iechyd wedi cael eu seilio ar ddata cofnod myfyrwyr HESA ym Mlwyddyn Academaidd 2021/22.

Talu'r grant

92. Ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24, caiff ein cynigion cychwynnol ar gyfer y proffil taliadau eu nodi yn y tabl isod.

	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor
Addysgu	10%	10%	10%	10%	10%	10%			10%	10%	10%	10%
Ymchwil ac arloesi	10%	10%	10%	10%	10%	10%			10%	10%	10%	10%
Bwrsariaethau cyrsiau meistr Ôl -radd a addysgir		50%						50%				

93. Pe bai newidiadau i'r gyllideb neu gyfyngiadau o ran rheoli arian parod (e.e. terfyn cario ymlaen CCAUC o un Flwyddyn Ariannol i'r nesaf), efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol addasu'r proffil hwn yn ystod y flwyddyn. Gallai pontio i'r CADY olygu bod angen gwneud addasiadau i broffiliau hefyd.

Asesu effaith ein polisiau

94. Mae model cyllido CCAUC yn cynnwys cyllid cylchol a chyllid strategol. Mae'r dulliau cyllido cylchol a ddefnyddiwyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 yn seiliedig ar fethodoleg hanesyddol ynghyd â dull newydd a roddwyd ar waith ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24 ar gyfer Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru fel a ddisgrifiwyd yng nghylchlythyr [W22/41HE](#). Wrth i ddulliau cyllido gael eu hadolygu, rydym yn cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym hefyd yn ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

Tablau crynhoi

Y tablau crynhoi a ganlyn yw:

Tabl 1	Dyraniadau cyllid ar y cyfan ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24, gan gynnwys cymariaethau â Blwyddyn Academaidd 2022/23
Tabl 2a	Dyraniadau cyllid ymchwil o ansawdd (QR) ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 2b	Dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 2c	Dyraniadau cyllid hyfforddiant ymchwil ôl-radd (PGR) ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 3	Crynodeb o gyllid ymchwil ac arloesi ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 4a	Addysgu – niferoedd a gyllidir a dyraniadau cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd a addysgir ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 4b	Addysgu – dyraniadau cyllid premiwm ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd a addysgir ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 5a	Dyraniadau addysgu ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn (FT UG) ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 5b	Premiwm pynciau cost uwch ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 – cyllid yn ôl pwnc
Tabl 6	Cymhariaeth rhwng y cyllid ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23 a Blwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 7	Dyraniadau bwrsariaethau cyrsiau meistr ôl-radd a addysgir ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23 a Blwyddyn Academaidd 2023/24
Tabl 8	Cyllid ar gyfer lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol ym Mlwyddyn Academaidd 2022/23 a Blwyddyn Academaidd 2023/24

Rhoddir dadansoddiadau manwl yn:

Atodiad A	Dyraniadau ymchwil ansawdd ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 yn ôl darparwr, yn ôl uned asesu
Atodiad B	Unedau cyllid ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023/24
Atodiad C	Cyllid addysgu seiliedig ar gredydau a gwerthoedd credydau a gyllidir ym Mlwyddyn Academaidd 2023/24 fesul darparwr, fesul categori pwnc academaidd

Tabl 1: Cyllideb Hirdymor

Adnoddau'r Flwyddyn Ariannol	Cyllideb Gymeradwy 2022-23 £	Cyllideb Gymeradwy 2023-24 £	Cyllideb Ddangosol LIC 2024-25 £
Refeniw (net)	207,966,092	205,230,395	198,556,000
Cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant)	100,000	100,000	100,000
Cyfalaf CCAUC	6,232	100,000	0
Cyfalaf	11,000,000	10,000,000	0
Cyfanswm Cymorth Grant	219,072,324	215,430,395	198,656,000
Namyn cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant)	(100,000)	(100,000)	(100,000)
Cyfalaf CCAUC	(6,232)	(100,000)	0
Cyfanswm Cymorth Grant	218,966,092	215,230,395	198,556,000
Namyn Costau Rhedeg Ymrwymadau Bl. Ar. wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol	(4,169,302)	(5,892,238) (121,797)	(5,493,238)
Namyn Arian nas tynnwyd i lawr Prentisiaethau Gradd	473,400	0	0
Gan Ychwanegu Cyllid Ychwanegol y Cytunwyd Arno Lleoedd Meddygol Ychwanegol	0	3,023,741	4,077,920
Cyllideb Rhaglen	215,270,190	212,240,101	197,140,682
Namyn Cyllid Wedi'i Glustnodi Lleoedd Meddygol Ychwanegol	(2,361,340)	(3,023,741)	(4,077,920)
Prentisiaethau Gradd	(6,142,317)	(8,874,000)	(5,000,000)
Bwsariaethau Cymhelliant Meistr	(4,000,000)	(4,000,000)	(4,000,000)
Cyfalaf	(11,000,000)	(10,000,000)	0
Cyllideb Gylchol	191,766,533	186,342,360	184,062,762
Adnoddau'r Flwyddyn Ariannol	Cyllideb Gymeradwy 2022/23 £	Cyllideb Gymeradwy 2023/24 £	
<u>Dosraniad Grant Cylchol yn y Flwyddyn Academaidd</u>			
Arian Gwirioneddol/Rhagamcanol a Dynnwyd i Lawr yn y Flwyddyn Ariannol	131,548,430	112,535,426	
Arian Gwirioneddol/Rhagamcanol a Dynnir i Lawr yn y Flwyddyn Ariannol N	73,806,934	73,625,105	
Cyfanswm Arian Cylchol Sydd Ar Gael	205,355,364	186,160,531	
<u>Cyllid Penodol</u>			
Lleoedd Meddygol Ychwanegol	3,425,247	3,267,058	
Prentisiaethau Gradd	6,976,167	8,874,000	
Bwsariaethau Cymhelliant Meistr	4,000,000	4,000,000	
Cyfalaf	11,000,000	10,000,000	
Cyfanswm Adnoddau'r Flwyddyn Academaidd	230,756,778	212,301,589	
Gwariant yn y Flwyddyn Academaidd ar Raglenni			
<u>Cyllid Ymchwil ac Arloesi</u>			
Ymchwil o Ansawdd	81,677,343	81,677,344	
Ymchwil Ôl-radd	6,236,883	6,236,883	
Lliniaru Ymchwil o Ansawdd ac Ymchwil Ôl-radd	2,687,506	1,758,557	
Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)	14,999,999	15,000,000	
Cyfanswm Cyllid Ymchwil ac Arloesi	105,601,731	104,672,784	
<u>Cyllid Israddedig Amser Llawn</u>			
Y Pen	332,295	322,460	
Premiwm Pynciau Cost Uwch	19,090,275	18,573,771	
Pynciau Drud	17,285,716	17,383,635	
Premiwm Cyfrwng Cymraeg	0	220,174	
Premiwm Anabledd	1,596,300	2,329,650	
Is-Gyfanswm Cyllid Israddedig Amser Llawn	38,304,586	38,829,690	
Cyllid Eifen Berfformio	585,240	585,240	
Lleoedd Meddygol Ychwanegol	3,425,247	3,267,058	
Cyfanswm Cyllid Israddedig Amser Llawn	42,315,073	42,681,988	
<u>Cyllid Addysgu Rhan-amser ac Ôl-radd a Addysgir</u>			
Ôl-radd Rhan-amser a Addysgir y Pen	46,330	46,025	
Ôl-radd Amser Llawn a Addysgir y Pen	38,685	34,745	
Premiwm Anabledd Ôl-radd a Addysgir	277,800	422,100	
Premiwm Anabledd Ymchwil Ôl-radd	47,700	76,500	
Cyfanswm Cyllid Ôl-radd a Addysgir (Rhan-amser ac Amser Llawn) ac Ymchwil Ôl-radd	410,515	579,370	
Cyllid Seiliedig ar Gredydau Israddedig Rhan-amser	24,116,686	24,100,701	
Israddedig Rhan-amser y Pen	109,995	109,950	
Premiwm Cyfrwng Cymraeg	78,163	128,936	
Premiwm Mynediad a Chadw	8,334,774	8,168,272	
Premiwm Anabledd Is-raddedig Rhan-amser	172,500	242,100	
Cyfanswm Cyllid Israddedig rhan-amser	32,812,118	32,749,959	
Is-Gyfanswm Cyllid Addysgu rhan-amser ac Ôl-radd a Addysgir	33,222,633	33,329,329	
Cyllid Strategol y Brifysgol Agored yng Nghymru	605,128	605,128	
Cyfanswm Cyllid Addysgu rhan-amser ac Ôl-radd a Addysgir	33,827,761	33,934,457	
<u>Mynediad, Llesiant a Chyflogadwyedd</u>			
Ymgynraedd yn Ehangach	2,743,991	2,000,000	
Cyflogadwyedd Myfyrwyr Heblaw ESF	325,548	0	
Llesiant ac Iechyd	2,266,537	2,030,000	
Llesiant ac Iechyd mewn AU	(98,537)	0	
Cymorth Cyflogadwyedd Wedi'i Dargedu	1,724,452	2,000,000	
Cyfanswm Mynediad, Llesiant a Chyflogadwyedd	6,961,991	6,030,000	
Cyfanswm Cyllid Sylfaenol	188,706,556	187,319,229	

Prentisiaethau Gradd	6,976,167	8,874,000
Cyllid Ôl-radd a Addysgir Ychwanegol		
Bwrsariaethau STEM a Chyfrwng Cymraeg Ôl-radd a Addysgir	3,779,104	3,492,926
Bwrsariaethau 60+ Ôl-radd a Addysgir	215,400	174,000
Cyllid wedi'i glustnodi dros ben	5,496	333,074
Cyfanswm Cyllid Ôl-radd a Addysgir Ychwanegol	4,000,000	4,000,000
Adfachiad Addysgu	(2,468,866)	(1,492,985)
Hepgoriad Ffioedd Rhan-amser	200,000	200,000
Buddsoddiadau Strategol Eraill		
Ailgyflunio a Chydweithio	25,000	0
Archwiliad Allanol o Ddata Cyllid AU	14,736	0
Dull Tryloyw o Gostio (TRAC) JCPSG	47,000	47,000
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)	504,119	55,000
Cronfa Ddatblygu Strategol	3,833,610	0
Pwyllgor Ymgynghorol Addysg Gofal Iechyd y DU (UKHEAC)	1,000	0
Jisc	2,001,470	2,001,470
Crwsibl Cymru	20,025	18,000
Canolfan Gydylynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (NCCPE)	9,483	14,800
Trawsnewid Casglu Data HESA	163,254	57,000
Sêr Cymru 2	2,227,987	0
Y Sgwrs	100,000	0
Jisc (Heblaw SA)	4,000	4,000
Cronfa Dadansoddeg Dysgu	225,000	225,000
Cyhoeddi a Digwyddiad HE Nation	6,828	6,000
AU Ymlaen	103,312	100,000
Gwybodaeth Gyhoeddus	215,000	200,000
Ansawdd	117,529	110,000
UCM Cymru - Llais Myfyrwyr mewn Rheoleiddio	60,000	60,000
Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB)	60,000	60,000
Universities UK International (UUKi)	25,991	28,000
Ad-dalu Grant	(1,167,000)	0
Cydlynu Concordat UKRI	10,767	7,000
Offer Rhyngweithiol i Ddawnsoddi Gwybodaeth y Farchnad Lafur	14,000	14,000
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	10,000	0
Cymdeithas Ddysgedig Cymru	172,000	275,000
Microgymwysterau	366,000	0
Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN)	102,332	240,000
Rhaglen Asesu Ymchwil y Dyfodol (FRAP)	54,426	0
Adolygiad o Gostau Astudio trwy Gyfrwng y Gymraeg	35,829	0
Rhaglen Cymorth i Raddedigion II	1,028,952	0
Cydraddoldeb Hiliol	1,000,000	1,000,000
Swydd Cenhadaeth Ddinesig Prifysgolion Cymru	20,000	12,000
Gwasg Prifysgol Cymru	132,000	132,000
Hyfforddiant HESA i Danysgrifwyr Newydd	6,000	0
Grant Ad-daladwy Cymru Fyd-eang III	(241,300)	0
Cymorth Mentora	600,000	0
Gwerthusiad o Brofiad Myfyrwyr o Ymchwil Ôl-radd	50,000	0
Cronfa Mentrau Strategol	6,985,580	0
Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC	0	60,000
Llesiant a Chaledi	2,300,000	2,300,000
Adolygiad o Ddarparu Addysg Uwch	49,000	0
Tracio Gyrfaoedd y Concordat	2,353	0
Cronfa Amrywiol y Prif Weithredwr	82,471	100,000
Cyfanswm Buddsoddiadau Strategol Eraill	21,378,754	7,126,270
Cyfanswm Gwariant Refeniw	218,792,611	206,026,514
Cyfalaf	11,000,000	10,000,000
Cyfanswm Gwariant Rhaglenni'r Flwyddyn Academaidd	229,792,611	216,026,514
Yn ystod y flwyddyn - Tan/(Gor) Wariant	964,167	(3,724,925)
Gan Ychwanegu Balans Arian Parod y Flwyddyn Flaenorol	5,258,190	5,033,957
Interest Received	103,858	0
Addasiad Balans Arian Parod	(1,219)	0
Addasiad Balans Arian Parod Arall	(1,291,039)	0
Balans Arian Parod y Gyllideb ar Ddiwedd y Flwyddyn	5,033,957	1,309,032

Tabl 2a: Dyraniadau cyllid QR

Darparwr	Bl. Ac. 2023/24 (£)
Prifysgol De Cymru	2,726,534
Prifysgol Aberystwyth	6,236,311
Prifysgol Bangor	7,653,778
Prifysgol Caerdydd	46,962,070
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ⁽²⁾	648,563
Prifysgol Abertawe	15,094,394
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	2,208,234
Prifysgol Wrecsam	147,459
Cyfanswm ⁽¹⁾	81,677,344

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

⁽²⁾ Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

**Tabl 2b: Dyraniadau Cronfa Arloesi
Ymchwil Cymru**

Darparwr	Bl. Ac. 2023/24 (£)
Prifysgol De Cymru	1,112,860
Prifysgol Aberystwyth	1,628,681
Prifysgol Bangor	1,882,484
Prifysgol Caerdydd	2,295,350
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	2,041,186
Prifysgol Abertawe	3,030,110
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	1,290,703
Prifysgol Wrecsam	1,216,548
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	502,079
Cyfanswm ⁽¹⁾	15,000,000

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

**Tabl 2c: Dyraniadau hyfforddiant
ymchwil ôl-radd**

Darparwr	Bl. Ac. 2023/24 (£)
Prifysgol De Cymru	437,781
Prifysgol Aberystwyth	430,456
Prifysgol Bangor	815,214
Prifysgol Caerdydd	2,562,521
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	178,448
Prifysgol Abertawe	1,466,719
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	275,787
Prifysgol Wrecsam	69,957
Cyfanswm ⁽¹⁾	6,236,883

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

Tabl 3: Crynodeb o gyllid ymchwil ac arloesi BI. Ac. 2023/24

Darparwr	BI. Ac. 2023/24 (£)			
	QR	RWIF	PGR	Cyfanswm ⁽¹⁾
Prifysgol De Cymru	2,726,534	1,112,860	437,781	4,277,175
Prifysgol Aberystwyth	6,236,311	1,628,681	430,456	8,295,448
Prifysgol Bangor	7,653,778	1,882,484	815,214	10,351,476
Prifysgol Caerdydd	46,962,070	2,295,350	2,562,521	51,819,941
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ⁽²⁾	648,563	2,041,186	178,448	2,868,197
Prifysgol Abertawe	15,094,394	3,030,110	1,466,719	19,591,223
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	2,208,234	1,290,703	275,787	3,774,725
Prifysgol Wrecsam	147,459	1,216,548	69,957	1,433,964
Y Brifysgol Agored yng Nghymru		502,079		502,079
Cyfanswm ⁽¹⁾	81,677,344	15,000,000	6,236,883	102,914,227

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

⁽²⁾ Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Tabl 4a: Addysgu - Niferoedd a gyllidir a dyraniadau cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd a addysgir

Darparwr	Niferoedd a Gyllidir			Dyraniadau Bl. Ac. 2023/24 (£)					
	Gwerthoedd credydau israddedig rhan-amser			Cyllid seiliedig ar gredydau ar gyfer israddedig rhan-amser			Y pen ⁽²⁾	Premiymau ⁽¹⁾	Cyfanswm ⁽³⁾
	Craidd	Twf	Cyfanswm	Craidd	Twf	Cyfanswm			
Prifysgol De Cymru	113,822		113,822	3,085,055		3,085,055	27,170	974,624	4,086,849
Prifysgol Aberystwyth	17,476		17,476	432,083		432,083	7,670	104,549	544,302
Prifysgol Bangor	1,320		1,320	32,588		32,588	5,405	57,663	95,656
Prifysgol Caerdydd	44,319		44,319	1,022,475		1,022,475	28,450	369,179	1,420,105
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	52,279	6,730	59,009	1,487,065	188,768	1,675,833	13,690	462,256	2,151,778
Prifysgol Abertawe	12,397		12,397	319,956		319,956	18,985	211,734	550,674
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	10,085	3,592	13,677	279,352	99,100	378,451	6,850	211,524	596,825
Prifysgol Wrecsam	48,785		48,785	1,345,848		1,345,848	8,960	339,289	1,694,097
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	603,942		603,942	14,981,694		14,981,694	70,485	6,090,352	21,142,532
Grŵp Llandrillo Menai	23,600		23,600	673,367		673,367	2,425	176,601	852,392
Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges	4,611		4,611	137,490		137,490	390	29,750	167,630
Coleg Gŵyr Abertawe	975	15	990	15,620	240	15,860	240	10,388	26,488
Cyfanswm ⁽³⁾	933,611	10,337	943,948	23,812,593	288,108	24,100,701	190,720	9,037,909	33,329,329

⁽¹⁾ Mae premiymau'n cynnwys y premiwm mynediad a chadw (israddedig rhan-amser), y premiwm cyfrwng Cymraeg (israddedig rhan-amser) a'r premiwm anabledd (israddedig rhan-amser, ôl-radd amser llawn a rhan-amser a addysgir, ac ymchwil ôl-radd amser llawn a rhan-amser).

⁽²⁾ Mae cyllid y pen yn cynnwys cyllid ar gyfer israddedig rhan-amser, ôl-radd ran-amser a addysgir ac ôl-radd amser llawn a addysgir.

⁽³⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

Tabl 4b: Addysgu - Dyraniadau cyllid premiwm ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd a addysgir Bl. Ac. 2023/24

Darparwr	Dyraniadau Bl. Ac. 2023/24 (£)			
	Premiwm mynediad a chadw	Premiwm cyfrwng Cymraeg	Premiwm anabledd ⁽²⁾	Cyfanswm ⁽¹⁾
Prifysgol De Cymru	837,521	3,903	133,200	974,624
Prifysgol Aberystwyth	70,793	1,356	32,400	104,549
Prifysgol Bangor	3,620	493	53,550	57,663
Prifysgol Caerdydd	254,316	563	114,300	369,179
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	314,343	44,413	103,500	462,256
Prifysgol Abertawe	137,762	172	73,800	211,734
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	168,774		42,750	211,524
Prifysgol Wrecsam	283,489		55,800	339,289
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	5,950,373	12,179	127,800	6,090,352
Grŵp Llandrillo Menai	107,144	65,857	3,600	176,601
Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges	29,750			29,750
Coleg Gŵyr Abertawe	10,388			10,388
Cyfanswm ⁽¹⁾	8,168,272	128,936	740,700	9,037,909

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

⁽²⁾ Dyrennir y premiwm anabledd ar gyfer israddedig rhan-amser, ôl-radd amser llawn a rhan-amser a addysgir, ac ymchwil ôl-radd amser llawn a rhan-amser.

Tabl 5a: Dyraniadau addysgu ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn

Darparwr	Dyraniadau Bl. Ac. 2023/24 (£)					
	Y pen	Premiwm pynciau drud	Premiwm pynciau cost uwch	Premiwm cyfrwng Cymraeg	Premiwm anabledd	Cyfanswm ⁽¹⁾
Prifysgol De Cymru	49,480	3,323,160	2,516,987	4,218	433,350	6,327,195
Prifysgol Aberystwyth	24,425		1,637,739	15,169	243,900	1,921,233
Prifysgol Bangor	22,230		1,888,286	22,119	206,100	2,138,735
Prifysgol Caerdydd	87,635	11,343,600	4,727,577	142,094	436,950	16,737,857
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	30,200		547,587	11,552	285,750	875,089
Prifysgol Abertawe	62,835	2,716,875	4,704,078	10,964	301,050	7,795,802
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	34,945		2,200,490	11,596	259,650	2,506,681
Prifysgol Wrecsam	8,755		304,970		156,150	469,875
Y Brifysgol Agored yng Nghymru						
Grŵp Llandrillo Menai	1,550		36,478	2,462	6,300	46,790
Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges	405		9,581		450	10,436
Coleg Gŵyr Abertawe					0	0
Cyfanswm ⁽¹⁾	322,460	17,383,635	18,573,771	220,174	2,329,650	38,829,690

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

Tabl 5b: Premiwm pynciau cost uwch Bl. Ac. 2023/24 - cyllid yn ôl pwnc

Darparwr	Dyraniadau Bl. Ac. 2023/24 (£)			Cyfanswm ⁽¹⁾
	Meddygaeth a Deintyddiaeth Anghlinigol	Gwyddoniaeth a Pheirianeg a Thechnoleg	Gwyddorau Mathemategol, TG a Chyfrifiadura	
Prifysgol De Cymru		2,226,287	290,700	2,516,987
Prifysgol Aberystwyth		1,464,683	173,056	1,637,739
Prifysgol Bangor		1,809,135	79,151	1,888,286
Prifysgol Caerdydd	886,877	3,453,205	387,495	4,727,577
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant		470,714	76,873	547,587
Prifysgol Abertawe	274,349	3,926,022	503,707	4,704,078
Prifysgol Metropolitan Caerdydd		2,040,248	160,242	2,200,490
Prifysgol Wrecsam		253,983	50,987	304,970
Y Brifysgol Agored yng Nghymru				
Grŵp Llandrillo Menai		25,426	11,052	36,478
Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges		3,646	5,934	9,581
Coleg Gŵyr Abertawe				
Cyfanswm ⁽¹⁾	1,161,225	15,673,349	1,739,196	18,573,771

⁽¹⁾ Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

Tabl 6: Cymhariaeth rhwng cyllid BI. Ac. 2022/23 a BI. Ac. 2023/24

Sefydliadau AU	Dyranadau BI. Ac. 2022/23 (£)								Dyranadau BI. Ac. 2023/24 (£)								Cyllid Iliniaru ar gyfer QR+PGR ⁽⁶⁾ (£)	Cyfanswm BI. Ac. 2023/24 ⁽³⁾ (£)	Newid BI. Ac. 2022/23 i BI. Ac. 2023/24 (£)	% y gwahaniaeth BI. Ac. 2022/23 i BI. Ac. 2023/24 (£)	
	Cyllid selliedig ar gredydau israddedig rhan-amser	Cyllid y pen a phremiwm rhan-amser ac ôl-radd a addysgir ⁽¹⁾	Cyllid y pen a phremiwm israddedig amser llawn ⁽²⁾	QR	PGR	RWIF	Cyllid strategol a chyllid elfen berfformio ychwanegol ⁽⁴⁾	Cyllid Iliniaru ar gyfer QR+PGR ⁽⁶⁾	Cyfanswm BI. Ac. 2022/23 ⁽³⁾ ar ôl Iliniaru	Cyllid selliedig ar gredydau israddedig rhan-amser	Cyllid y pen a phremiwm rhan-amser ac ôl-radd a addysgir ⁽¹⁾	Cyllid y pen a phremiwm israddedig amser llawn ⁽²⁾	QR	PGR	RWIF	Cyllid strategol a chyllid elfen berfformio ychwanegol ⁽⁴⁾					Cyfanswm BI. Ac. 2023/24 ⁽³⁾
Prifysgol De Cymru	2,952,413	1,087,378	6,299,182	2,726,534	468,886	1,158,273	585,240		15,277,907	3,085,055	1,001,794	6,327,195	2,726,534	437,781	1,112,860	585,240	15,276,459		15,276,459	-1,448	0.0%
Prifysgol Aberystwyth	441,994	94,952	1,989,420	6,236,311	435,741	1,701,243		1,527,105	12,426,766	432,083	112,219	1,921,233	6,236,311	430,456	1,628,681		10,760,983	1,021,241	11,782,224	-644,542	-5.2%
Prifysgol Bangor	127,034	49,053	2,068,447	7,653,778	701,449	1,968,404		649,503	13,217,668	32,588	63,068	16,737,857	7,653,778	815,214	1,882,484		12,585,867	364,743	12,950,609	-267,059	-2.0%
Prifysgol Caerdydd	1,137,759	337,324	16,462,181	46,962,070	2,619,724	2,299,939			69,818,997	1,022,475	397,629	16,737,857	46,962,070	2,562,521	2,295,350		69,977,902		69,977,902	158,905	0.2%
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ⁽⁵⁾	1,376,858	511,993	890,380	648,563	164,706	1,977,706			5,570,206	1,675,833	475,946	875,089	648,563	178,448	2,041,186		5,895,064		5,895,064	324,858	5.8%
Prifysgol Abertawe	298,620	191,494	7,701,809	15,094,394	1,524,194	2,810,524		480,444	28,101,479	319,956	230,719	7,795,802	15,094,394	1,466,719	3,030,110		27,937,699	354,780	28,292,480	191,001	0.7%
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	258,656	242,746	2,322,382	2,208,234	256,408	1,345,477			6,633,902	378,451	218,374	2,506,681	2,208,234	275,787	1,290,703		6,878,230		6,878,230	244,328	3.7%
Prifysgol Wrecsam	1,687,980	426,653	499,413	147,459	65,775	1,223,087		30,454	4,080,821	1,345,848	348,249	469,875	147,459	69,957	1,216,548		3,597,936	17,794	3,615,729	-465,092	-11.4%
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	14,998,467	5,948,832				515,346	605,128		22,067,773	14,981,694	6,160,837			502,079		605,128	22,249,739		22,249,739	181,965	0.8%
Cyfanswm ⁽³⁾	23,279,781	8,890,425	38,233,213	81,677,344	6,236,883	15,000,000	1,190,368	2,687,505	177,195,519	23,273,984	9,008,835	38,772,465	81,677,344	6,236,883	15,000,000	1,190,368	175,159,879	1,758,557	176,918,436	-277,083	-0.2%

Sefydliadau AB	Dyranadau BI. Ac. 2022/23 (£)								Dyranadau BI. Ac. 2023/24 (£)								Cyllid Iliniaru ar gyfer QR+PGR ⁽⁶⁾ (£)	Cyfanswm BI. Ac. 2023/24 ⁽³⁾ (£)	Newid BI. Ac. 2022/23 i BI. Ac. 2023/24 (£)	% y gwahaniaeth BI. Ac. 2022/23 i BI. Ac. 2023/24 (£)	
	Cyllid selliedig ar gredydau israddedig rhan-amser	Cyllid y pen a phremiwm rhan-amser ac ôl-radd a addysgir ⁽¹⁾	Cyllid y pen a phremiwm israddedig amser llawn ⁽²⁾	QR	PGR	RWIF	Cyllid strategol a chyllid elfen berfformio ychwanegol ⁽⁴⁾	Cyllid Iliniaru ar gyfer QR+PGR ⁽⁶⁾	Cyfanswm BI. Ac. 2022/23 ⁽³⁾ ar ôl Iliniaru	Cyllid selliedig ar gredydau israddedig rhan-amser	Cyllid y pen a phremiwm rhan-amser ac ôl-radd a addysgir ⁽¹⁾	Cyllid y pen a phremiwm israddedig amser llawn ⁽²⁾	QR	PGR	RWIF	Cyllid strategol a chyllid elfen berfformio ychwanegol ⁽⁴⁾					Cyfanswm BI. Ac. 2023/24 ⁽³⁾
Grŵp Llandrillo Menai	688,407	162,872	59,230						910,509	673,367	179,026	46,790					899,182		899,182	-11,327	-1.2%
Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges	134,040	28,857	12,142						175,040	137,490	30,140	10,436					178,066		178,066	3,026	1.7%
Coleg Gŵyr Abertawe	14,459	23,792							38,251	15,860	10,628						26,488		26,488	-11,763	-30.8%
Cyfanswm ⁽³⁾	836,907	215,521	71,372	0	0	0	0	0	1,123,800	826,717	219,794	57,225	0	0	0	0	1,103,736	0	1,103,736	-20,064	-1.8%

Cyfanswm SAUau a SABau ⁽³⁾	24,116,688	9,105,946	38,304,585	81,677,344	6,236,883	15,000,000	1,190,368	2,687,505	178,319,319	24,100,701	9,228,629	38,829,690	81,677,344	6,236,883	15,000,000	1,190,368	176,263,615	1,758,557	178,022,172	-297,147	-0.2%
--	-------------------	------------------	-------------------	-------------------	------------------	-------------------	------------------	------------------	--------------------	-------------------	------------------	-------------------	-------------------	------------------	-------------------	------------------	--------------------	------------------	--------------------	-----------------	--------------

(1) Mae premiwmiau'n cynnwys y premiwm mynediad a chadw (israddedig rhan-amser), y premiwm cyfrwng Cymraeg (israddedig rhan-amser) a'r premiwm anabledd (israddedig rhan-amser, ôl-radd amser llawn a rhan-amser a addysgir, ac ymchwil ôl-radd amser llawn a rhan-amser).

(2) Dyranadau premiwm israddedig amser llawn w'r premiwm pŵnciau drud, y premiwm pŵnciau cost uwch, y premiwm cyfrwng Cymraeg a'r premiwm anabledd.

(3) Efallai na fydd y symiau'n gwneud cyfanswm union oherwydd talgrynnu.

(4) Rydym wedi dyrannu cyllid strategol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru am flwyddyn bellach ar gyfer BI. Ac. 2023/24. Dyrennir cyllid elfen berfformio ychwanegol i Brifysgol De Cymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth elfen berfformio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

(5) Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnwys Canolfan Uwchefyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

(6) Dyrennir cyllid Iliniaru lle mae cyllid QR + PGR ar gyfer BI. Ac. 2023/24 yn llai na chyllid QR + PGR a ddyrannwyd ar gyfer BI. Ac. 2021/22, ac fe'i cyfrifir fel 60% o'r gwahaniaeth mewn QR + PGR rhwng y ddwy flynedd. Mae hwn yn cael ei ddyrannu yn BI. Ac. 2023/24 i liniaru effaith y newid i'r dulliau cyllido QR a PGR yn BI. Ac. 2022/23. Fe wnaed cyfrifiad tebyg ar gyfer cyllid BI. Ac. 2022/23, pan gyfrifwyd cyllid Iliniaru fel 90% o'r gwahaniaeth mewn QR + PGR rhwng 2021/22 a 2022/23.

Tabl 7: Dyraniadau bwrsariaethau cyrsiau Meistr Ôl-radd a Addysgir Bl. Ac. 2022/23 a Bl. Ac. 2023/24

Darparwr	Dyraniad Bl. Ac. 2022/23 (£)										Dyraniad Bl. Ac. 2023/24 (£)								% y gwahaniaeth Bl. Ac. 2022/23 i Bl. Ac. 2023/24	
	Dechreuwr Bl. Ac. 2022/23				Dechreuwr Bl. Ac. 2021/22				Dechreuwr Bl. Ac.	Cyfanswm	Dechreuwr Bl. Ac. 2023/24				Dechreuwr Bl. Ac. 2022/23					Cyfanswm
	Bwrsar-iaethau STEM	Bwrsar-iaethau cyfrwng Cymraeg	Bwrsar-iaethau 60+	Cyfanswm	Bwrsar-iaethau STEM	Bwrsar-iaethau cyfrwng Cymraeg	Bwrsar-iaethau 60+	Cyfanswm			Bwrsar-iaethau 60+	Bwrsar-iaethau STEM	Bwrsar-iaethau cyfrwng Cymraeg	Bwrsar-iaethau 60+	Cyfanswm	Bwrsar-iaethau STEM	Bwrsar-iaethau cyfrwng Cymraeg	Bwrsar-iaethau 60+		
Prifysgol De Cymru	624,405	1,500	2,000	627,905	213,295	0	4,000	217,295	2,200	847,399	577,196	0	8,000	585,196	127,457	500	2,000	129,957	715,153	-16%
Prifysgol Aberystwyth	65,420	5,000	22,000	92,420	42,187	1,000	2,000	45,187	1,467	139,074	126,583	10,000	4,000	140,583	10,000	0	18,000	28,000	168,583	21%
Prifysgol Bangor	399,337	36,500	12,000	447,837	29,189	2,500	4,000	35,689	2,200	485,726	430,351	48,500	8,000	486,851	27,462	1,500	0	28,962	515,813	6%
